## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (FFORDD OSGOI NEWBRIDGE, BWRDEISTREF SIROL WRECSAM) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, wrth Ffordd Osgoi Newbridge, Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Effaith y Gorchymyn yw:

i. gwahardd dros dro pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 rhwng ganolbwynt Cyffordd 1 (Cyfnewidfa Rhiwabon) ac ochr ogleddol Cylchfan Halton.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd o Gylchfan Halton yw dilyn yr A5 tua'r gorllewin i Langollen a'r A539 tua'r dwyrain i Riwabon: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de o Gyffordd 1. Gall y dargyfeiriad hwn newid yn ystod oes y Gorchymyn ond bydd arwyddion ffyrdd yn dangos yr holl lwybrau dargyfeiriol.

ii. gosod terfyn cyflymder o 50 mya, 40 mya, 30 mya neu 10 mya dros dro ar y darn o'r A483 a ddisgrifir uchod. Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Medi 2024. Disgwylir i'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro weithredu yn ysbeidiol o 06:00 o'r gloch ar 1 Medi 2024 am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad am yr holl waith sy'n cael ei wneud yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn i'r gwaith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A483 TRUNK ROAD (NEWBRIDGE BYPASS, WREXHAM COUNTY BOROUGH) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road at Newbridge Bypass, Wrexham County Borough.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding along the length of the A483 trunk road between Junction 1 (Ruabon Interchange) and the northern side of Halton Roundabout.

The alternative route for northbound traffic from Halton Roundabout is via the westbound A5 to Llangollen and eastbound A539 to Ruabon: vice versa for southbound traffic from Junction 1. This diversion may change during the lifetime of the Order but all diversion routes will be signed accordingly.

ii. impose a 50 mph, 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit on the length of the A483 described above. The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at such times.

The Order comes into force on 1 September 2024. The temporary prohibitions and restrictions are expected to operate intermittently from 06:00 hours on 1 September 2024 for a maximum period of 18 months. Notice of all works being undertaken during this period will be displayed prior to their commencement.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government